

Disgrifiad Swydd: Swyddog Lles y Clwb

Mae Swyddog Lles unrhyw glwb yn rôl bwysig iawn. Mae'r swydd yn cynorthwyo gyda diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed.

Sut byddwch chi'n elwa o'r swydd?

- Ymdeimlad o roi yn ôl i'r gymuned
- Cyfraniad at ddiogelu ac amddiffyn plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed
- Cwrdd â llawer o bobl o wahanol gefndiroedd
- Cyfle i ddatblygu sgiliau
- Datblygiad gyrfa posibl / cyflogadwyedd gwell
- Potensial i dderbyn hyfforddiant ac ennill cymwysterau newydd

I bwy y byddaf i'n atebol?

- Y Cadeirydd

Pwy fydd yn atebol i mi?

- Pob aelod o'r clwb sydd o dan 18 oed (gan gynnwys chwaraewyr, canolwyr / dyfarnwyr, gwirfoddolwyr).
Cyfrifoldeb pob clwb gydag aelodau o dan 18 oed yw cael Swyddog Lles enwebedig ar gyfer y Clwb.

Yn ddelfrydol, bydd angen gwybodaeth arnoch chi am:

- Polisi a Gweithdrefnau Lles Plant y Corff Llywodraethu Cenedlaethol
- Deddfwriaeth graidd, arweiniad y llywodraeth a fframwaith cenedlaethol ar gyfer amddiffyn plant
- Rolau a chyfrifoldebau asiantaethau statudol lleol (y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant)
- Rôl a chyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol a'r clwb o ran diogelu lles plant a phobl ifainc a ffiniau rôl swyddog lles y clwb
- Ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amddiffyn plant

Bydd angen hefyd bod gennych chi:

- Sgiliau gweinyddu sylfaenol
- Y gallu i gadw cofnodion
- Y gallu i ddarparu arweiniad sylfaenol
- Ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- Medrau cyfathrebu da

Yr hyn y byddwch chi'n ei wneud:

- Cynorthwyo'r clwb i gyflawni ei gyfrifoldebau i ddiogelu plant a phobl ifainc
- Cynorthwyo'r clwb i weithredu'r adran lles plant (gan gynnwys hyfforddiant) o'r cynllun datblygu (Dolen i dudalen y cynllun datblygu yn Trefnu a Llywodraethu)
- I fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer staff, gwirfoddolwyr, rhieni a phlant/phobl ifainc lle mae pryderon am les plant, arfer gwael neu gam-drin plant yn cael eu nodi
- Byddwch yn bwynt cyswllt cyntaf â'r Swyddog Lles Plant yn eich Corff Llywodraethu Cenedlaethol
- Gweithredu gweithdrefnau adrodd a chofnodi'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol
- Cynnal manylion cyswllt ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol lleol, yr heddlu a'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant
- Hyrwyddo arweiniad arfer gorau / cod moeseg ac ymddygiad o fewn y clwb ac ymarfer gwrthwahaniaethol y Corff Llywodraethu Cenedlaethol
- Sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal

Faint o amser y bydd yn ei gymryd?

- Tua 2-3 awr yr wythnos, er y bydd hyn yn dibynnu ar natur eich clwb/sefydliad chwaraeon.